# CRYNODEB O ARFARNIAD A CHYNLLUN DATBLYGU YSGOL BRO ALUN 2022-23 A BLAENORIAETHAU 2023-24

Rydym yn adolygu'n barhaus ble'r ydym fel ysgol a sut y gallwn wella i sicrhau bod eich plentyn yn cael yr addysg orau yn Ysgol Bro Alun.Trwy'r broses o hunan-arfarnu ac adolygu parhaus ar draws yr ysgol rydym yn adnabod ein blaenoriaethau allweddol ar gyfer gwelliant.

## EIN CRYFDERAU

### Arweinyddiaeth

Mae fframwaith hunan arfarnu rheolaidd mewn lle sy'n sicrhau bod adolygu parhaus yn ran annatod o fywyd yr ysgol.

Mae disgwyliadau uchel yn cael eu gosod ar draws yr ysgol

### Addysgu a dysgu

Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu effeithiol wedi eu sefydlu yn gyson ar draws yr ysgol.

Mae amgylchedd diogel a symbylus ar draws holl ardaloedd dysgu ble gall plentyn fentro, gwneud camgymeriadau'n hyderus a dysgu mewn awyrgylch o gyd barch a gwerthfawrogiad o ymdrechion pawb.

Mae blaenoriaeth cyson yn cael ei roi ar ddatblygu sgiliau llythrennedd rhifedd a digidol y disgyblion ar draws y cwricwlwm.

### Cwricwlwm

Mae ein cwricwlwm yn gydlynus er mwyn sicrhau bod ein dysgwyr yn ddinasyddion uchelgeisiol, mentrus, egwyddorol ac iach.

Mae ein cwricwlwm yn eang, yn gytbwys ac yn addas ar gyfer dysgwyr o wahanol oedrannau a galluoedd .

Mae ein cwricwlwm yn cynnig amrywiaeth o brofiadau cyfoethog sy'n meithrin disgyblion sy'n ymfalchïo yn eu Cymreictod a diwylliant ein hardal leol.

### Lles, Tegwch a Chynhwysiant

Mae strwythurau a phrosesau cadarn iawn ar gyfer cefnogi disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Mae trefniadau cadarn mewn lle i asesu a chefnogi lles disgyblion.

## LLWYDDIANT BLAENOROL

**Gwella safonau llythrennedd a rhifedd disgyblion Addasu cynlluniau i sicrhau fod cyfleuon pwrpasol i ddatblygu sgiliau Ll a Rh o fewn gweithgareddau**

- Llysgenhadon Iaith wedi ethol ac yn rhan o bwyllgor trefnu'r Eisteddfod Ysgol. Eisteddfod wedi creu bwrlwm ac ethos bositif am y Gymraeg.

**Sicrhau lefel briodol o her i ddisgyblion**

- Pawb yn ymwybodol o bolisi adborth/adlewyrchu
- Staff yn gwahaniaethu i bwrpas sy'n golygu bod llawer o blant yn dewis lefel o her briodol.
- cynllunio yn cefnogi dilyniant ar draws yr ysgol.

**Cwricwlwm i Gymru – gwreiddio elfennau statudol Addysg Cydberthnasedd a Rhywioldeb a Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg**

- Staff wedi gweinyddu gweithgareddau/tasgau i ganfod gwybodaeth blaenorol a barn y disgyblion. Mae'r wybodaeth yma wedi galluogi staff i rannu gweithgareddau (ACRh) i'r unedau.

# BLAENORIAETHAU GWELLA

*Dyma drosolwg o feysydd datblygu ysgol y byddwn yn canolbwyntio arnynt yn ystod y flwyddyn academaidd 2023-2024 er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i ddarparu'r gorau y gallwn i'n disgyblion.*

## 1 Codi safon llafar y disgbylion

**Rhesymau dros y flaenoriaeth:**
Angen parhau i magu hyder, rhugledr a pharodrwydd y disgyblion i ddefnyddio'r Gymraeg. Credwn trwy gyfoethogi eu sgiliau iaith lafar y bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar eu hysgrifennu.

**Targed:**
Disgyblion yn gallu cyfathrebu yn y Gymraeg yn naturiol ar fuarth yr ysgol a thu hwnt i'r dosbarth mewn iaith gywir, cyfoethog a graenus. Bod gwaith ysgrifenedig y disgyblion yn adlewyrchu hyn.

## 2 Datblygu'r dysgu yn yr awyr agored er mwyn cefnogi datblygiad cymdeithasol, emosiynol, ysbrydol a chorfforol y disgyblion yn ogystal â darparu cyfleoedd dilys i ddysgwyr ddatblygu ac atgyfnerthu sgiliau trawsgwricwlaidd.

**Rhesymau dros y flaenoriaeth:**
Gwella ymgysylltiad disgyblion mewn gwersi
Defnyddio dulliau amlsynhwyraidd wrth ddysgu

**Targed:**

- Gwell ymgysylltiad a phleser gan ddisgyblion

## 3 Gwreiddio elfennau statudol Addysg Chydberthnasedd a Rhywioldeb

**Rhesymau dros y flaenoriaeth:**
Parhau gyda'r gwaith o llynedd

**Targedau:**
unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd cyflawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas

## 4 Datblygu a gwreiddio system effeithiol o dracio cynnydd y disgyblion.

**Rhesymau dros y flaenoriaeth:**
Mae prosesau monitro yn ein hysbysu bod angen datblygu ein systemau tracio er mwyn bod yn effeithiol wrth dracio dilyniant disgyblion trwy ein cwricwlwm newydd.

**Targedau:**

- Bod system dracio gadarn yn ei lle, yn tracio disgyblion a grwpiau yn effeithiol gan alluogi staff i fonitro cynnydd dysgwyr unigol, cynllunio'r camau nesaf yn eu dysgu a galluogi cymharu grwpiau o ddysgwyr

**Pwy sy'n Cefnogi?**
GWE
Awdurdod Lleol
Cydlynudd Siarter Iaith
Gwasanaeth Cefnogi Hwyradyfodiaid i'r Gymraeg